*This document is available in English* **Rhif ar y Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18/12/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc i'r Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Argymell bod yr Awdurdod yn penodi Sally Ellis a Julia Hughes i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cynhaliodd yr Awdurdod ymgyrch recriwtio ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint i recriwtio aelodau i'w Pwyllgorau Safonau. Roedd angen dau aelod annibynnol ar ATAGC ac roedd angen un aelod annibynnol ar Sir y Fflint.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n penodi Sally Ellis a Julia Hughes am gyfnod o bedair blynedd o'r 1af Ionawr 2018 ymlaen.

**CEFNDIR**

4 Yn ystod 2003, yn unol â'r gofynion deddfwriaethol, aeth yr Awdurdod ati i sefydlu Pwyllgor Safonau. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, pedwar ohonynt yn aelodau annibynnol a dau gynrychiolydd o'r Awdurdod Tân.

5 Eleni, cafodd yr ymgyrch recriwtio ei chynnal ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint.

**GWYBODAETH**

6 Er bod yr awdurdod tân ac achub a'r cyngor sir yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, penderfynwyd cymryd y cam anarferol o recriwtio ar y cyd. Gwnaethpwyd hyn er mwyn rhannu'r gost ond hefyd, ac yn bwysicach, oherwydd bod manteision i rannu dealltwriaeth rhwng y ddau gorff.

7 Cafodd y swyddi eu hysbysebu yn y *Daily Post, Flintshire Leader*, ar wefannau ATAGC a Chyngor Sir y Fflint a gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2017. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 13 Tachwedd 2017. Daeth wyth cais i law yn ymateb i'r hysbyseb, a rhoddwyd 5 ar y rhestr fer.

8 Cyfarfu'r Panel ar 29 Tachwedd i gyfweld â'r ymgeiswyr a oedd ar y rhestr fer. Ar ddiwedd y broses gyfweld, bu'r Panel yn trafod llawer ar briodweddau a chryfderau'r pum ymgeisydd gan ddod i'r casgliad fod pob un o'r ymgeiswyr yn addas i'w penodi.

9 Mae'r Panel yn argymell bod yr Awdurdod yn penodi Sally Ellis a Julia Hughes, gan ddod i rym ar 1 Ionawr 2018 am gyfnod o bedair blynedd. Rhoddir pytiau amdanynt yn atodiad 1 er gwybodaeth.

10 Dyma fydd aelodau'r Pwyllgor, a chyfnodau eu swyddi:

| | |
|---|---|
| **Aelodau Annibynnol** | |
| David Morris | 01/09/14 - 31/08/18 (ail dymor) |
| Antony Young | 01/04/16 - 30/03/20 (ail dymor) |
| Sally Ellis | 01/01/18 – 31/12/21 |
| Julia Hughes | 01/01/18 – 31/12/21 |
| **Cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub** | |
| Y Cynghorydd Dylan Rees | Mai 2017 – Mai 2021 |
| Y Cynghorydd Owen Thomas | Mai 2017 – Mai 2021 |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ddim yn berthnasol. |
| Y Gyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r aelodau'n eu mynychu yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes dim goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |

**Atodiad 1**

**Sally Ellis**

Yn wreiddiol o Swydd Norfolk, mae Sally Ellis yn byw yn Sir y Fflint ers 30 mlynedd ar mwy, a hynny yng Nghaerwys gan mwyaf. Mae ganddi ddau o blant, sy'n dal i fyw yn yr ardal ac a aeth i'r ysgol yn yr Wyddgrug. Mae Sally hefyd wedi byw neu weithio (neu'r ddau) yn ardaloedd pob un o awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

Mae gan Sally radd, ac mae ganddi gymwysterau mewn gweinyddu cyhoeddus, rheolaeth strategol ac arweinyddiaeth. Mae Sally'n gallu darllen a deall Cymraeg yn eithaf da.

Roedd bywyd gwaith cynnar Sally ym maes datblygu cymunedol, gan weithio i'r sector gwirfoddol, gan gynnwys yng Ngogledd Cymru. Symudodd i weithio i lywodraeth leol yn 1992, gan weithio i Gynghorau Clwyd a Chonwy cyn dod yn Gyfarwyddwr Moderneiddio a Lles yng Nghyngor Sir Ddinbych yn 2001-2014. Bu hi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal ag yn gyfrifol am amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys tai, Adnoddau Dynol, TGCh, hamdden a'r swyddogaeth adfer corfforaethol (cynllunio ar gyfer argyfyngau). Daeth y gwaith hwn â hi i bartneriaethau â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yn enwedig ei swyddogaethau ataliol ac ymateb i argyfyngau.

Ers iddi ymddeol o waith llawn amser yn 2014, mae Sally wedi cyflawni nifer o swyddi ar gyfer Llywodraeth Cymru ac mae wedi gwneud gwaith mentora ac ymgynghorol ar gyfer llywodraeth genedlaethol a lleol, yn bennaf yng Ngogledd Cymru. Ar hyn o bryd, mae hi'n aelod o Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n edrych ar oblygiadau diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar y gweithlu. Mae hi hefyd yn Aelod o Bwyllgor Archwilio Sir y Fflint ers Mehefin 2017. Yn wirfoddol, Sally yw Is-gadeirydd Cymdeithas Dai Gogledd Cymru ac mae hi'n cynghori gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych.

Mae Sally'n frwd dros arddio, cerdded, gwylio ffilmio a mynd i'r theatr.

**Julia Hughes**

Mae Julia Hughes yn byw yn Sir Ddinbych, yn agos at y ffin â Sir y Fflint ac ar hyn o bryd mae hi'n aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ers cael ei phenodi i'r swydd honno ym mis Mai 2015.

Ers Gorffennaf 2014, mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Cymdeithas Dai Grŵp Cynefin, sy'n gweithredu yn y chwe sir yng Ngogledd Cymru a Gogledd Powys. Mae hi'n aelod o lawer o'r is-bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio ac Adnoddau (hi yw'r Cadeirydd ar hyn o bryd), y Pwyllgor Llywodraethu a'r Grŵp Pensiynau.

Mae hi wedi treulio bron i 32 o flynyddoedd o waith llawn amser yn y sector addysg, a hynny mewn swyddi Arweinyddiaeth a Rheolaeth sylweddol am lawer o'r cyfnod hwnnw a'i swydd olaf oedd Cyfarwyddwr Dysgu Oedolion a Chymunedol yng Nghonwy a Sir Ddinbych ar gyfer Coleg Llandrillo (rhan o Grŵp Llandrillo Menai) gyda chyfrifoldeb am bedwar safle coleg, darpariaeth allgymorth yng Nghonwy a Sir Ddinbych, darpariaeth y coleg mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a rhywfaint o waith Addysg Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith, a Gwaith Masnachol.

Mae Julia'n dal yn gysylltiedig â'r sector, gan gynnig gwasanaethau ymgynghoriaeth addysgol ac mae ei chontractau wedi cynnwys prosiectau gyda Llywodraeth Cymru a gwerthuso prosiectau ar gyfer yr UE.

Hefyd, mae hi'n cynorthwyo â'r gwaith o redeg, gweithredu a chydweithrediad busnes y fferm deuluol.

Mae ei gyrfa amrywiol a'i chefndir, ei gweithgareddau presennol gan gynnwys swyddi gwirfoddol, ynghyd â'i phrofiad o ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn rhoi set sgiliau trosglwyddadwy eang ac amrywiol iddi a phriodweddau personol sy'n berthnasol iawn i'r gofynion o ran aelodaeth a gwaith Pwyllgorau Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyngor Sir y Fflint.